

Menter Iaith Sir y Fflint
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Nos Iau Medi 10^{fed} 2009
Canolfan Daniel Owen, Yr Wyddgrug

Presennol: Iwan Jones, Carys Gwyn, Darren Morris, Elwyn Roberts, Gwenno Jones, Lisa Orhan, Carl Renshaw, Nesta Davies, Huw Alun Roberts, Neil Wyn Jones, Nia Lynn Jones, Rhian Davies, Ellie Pritchard, Gwawr Cordiner, Harri Bryn Jones, Frances Jones, Dylan Jones a Nia Wyn Jones.

Ymddiheuriadau: Sion Edwards, Iddon Edwards, Sian Rogers, Fred Bonham, Ffion Williams, Dafydd Griffiths, Meri Griffiths, Aled Lloyd Davies.

1. Croesawodd Bryn bawb i'r cyfarfod gan gadarnhau fod pawb wedi derbyn yr adroddiad blynyddol. Diolchodd Bryn i Gwawr am ei gwaith yn arwain staff y fenter ac i Rhian ac Ellie am ei gwaith dros y flwyddyn gan dynnu sylw at y cyflwyniad darluniadol ar y sgrin . Aeth ymlaen i nodi'r newidiadau o ran aelodau staff gan fod Rebecca Davies wedi ei hapwyntio yn Swyddog Iaith a Threftadaeth ym Mis Awst a Hannah Philip newydd adael wedi cyfnod o flwyddyn a Gwilym Jeffs wedi dechrau fel Swyddog Plant ac Ieuenctid y Fenter.

2. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Mehefin 12^{fed} 2008.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir trwy gynnig Iwan Jones a eiliwyd gan Carys Gwynn. Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

3. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Arbennig Rhagfyr 8fed 2008.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir wedi ychwanegu enwau Ken Jones a Lisa Orhan at y rhai oedd yn bresennol trwy gynnig Gwenno Jones a eiliwyd gan Lisa Orhan. Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

4. Derbyn Adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr

Diolchodd Gwawr i bawb am ddod i'r cyfarfod ac i'r staff sydd wedi cael blwyddyn brysur.

Nododd ein bod yn ffodus o gael tîm o staff brwdfrydig ac egniol, a'u bod wedi bod yn gefn iddi hi fel rheolwr a bod y llwyth gwaith a gyflawnwyd yn dangos yr ymroddiad a'r dychymyg sydd ei angen i ddal sylw pobl y dyddiau yma.

4.1 Mudiadau a Phartneriaethau

Ni fyddai'r Fenter wedi gallu cyflawni'r hyn wnaed heb y cydweithredu a'r cydweithio parod gyda nifer o bartneriaid allweddol sydd yn golygu fod adnoddau prin yn cyrraedd yn bellach. Mae aelodau'r Fforwm Sirol yn cefnogi'r Cynllun Iaith a Threftadaeth sydd wedi denu nawdd sylweddol i gynyddu ymwybyddiaeth gymunedol a thalu am astudiaeth dichonolrwydd i sefydlu Canolfan Gymraeg yn yr Wyddgrug. Cafwyd ymateb cadarnhaol a'r camau nesaf fydd sefydlu Pwyllgor Gwaith i drafod y math o adeilad sydd ei angen a'r defnydd y gellid ei wneud ohono, paratoi cynlluniau a dyluniad a sicrhau nawdd ar gyfer y gwaith. Mae'r

Fenter yn hwyluso a chefnogi gwaith mudiadau eraill fel pwyllgorau Tegeingl a'r Cadi Ha, Cymdeithas Dafydd ap Llywelyn ym Magillt a Gŵyl y Ffin, gŵyl ar gyfer ieuentid a gynhaliwyd am y tro cyntaf eleni ac y gobeithir adeiladu arni yn y dyfodol.

4.2 Rhieni Ifanc

Cynhaliwyd nifer o weithgareddau i'r teulu i geisio argyhoeddi rhieni ifanc o bwysigrwydd dwyieithrwydd a chafwyd niferoedd da yn y digwyddiadau hyn. Lansiodd Clwb Gwawr mewn cyfarfod yr wythnos diwethaf fydd yn darparu cyfleoedd newydd i gymdeithasu trwy'r Gymraeg.

4.3 Plant

Mae'r Fenter yn cydweithio gyda'r ysgolion a'r Urdd ar gynllun Theatr FFM. Cynhaliwyd arddangosfa o bypedau a wnaed gan blant yn ymateb i'r thema arwyr Cymru yn Theatr Clwyd a chreuwyd Murlun Cymunedol Oakenholt dan gyfarwyddwyd Cefyn Burgess sydd i'w weld yn Ysgol Croes Atti.

4.4 Dysgwyr / Hyder Ieithyddol

Nodwyd nad yw'r Fenter bellach yn darparu gweithgareddau'n benodol ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag estynnwyd cefnogaeth i Eisteddfod y Dysgwyr a gynhaliwyd yn Rhuthun. Bydd Rebecca yn cynnal digwyddiad Adrodd Straeon Arswyd ar gyfer Calan Gaeaf yn Y Twr, Nercwys dan y Cynllun Iaith a Threftadaeth fydd yn addas i Ddysgwyr.

4.5 Pobl Ifanc

Mae'r Fenter yn cynnal gweithgareddau i annog pobl ifanc i wneud mwy o ddefnydd o'u Gymraeg a rhoi blas iddynt ar Gymreictod. Cafwyd Noson Ffasiynau yn arddangos gwaith 95 o ddisgyblion Ysgol Uwchradd a rhai o fyfyrwyr Coleg Llaneurgain i ddathlu diwrnod Santes Dwynwen. Gwnaeth Hannah, gyda chefnogaeth y tîm gwaith ardderchog yn trefnu'r digwyddiad a llwyddwyd i gael sylw ar y cyfryngau ac yn y wasg. Cafwyd ymateb ac adborth cadarnhaol hefyd i Wyl y Ffin.

Gorffennodd Gwawr trwy ddiolch i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

4.6 Sylwadau a thrafodaeth ar waith gyda Dysgwyr

Mynegwyd siom nad yw'r Fenter bellach yn cyflogi Swyddog Dysgwyr. Y rheswm dros hyn yw bod Canolfan Iaith y Gogledd sydd wedi cael y cyfrifoldeb a'r cyllid i gynnal gweithgareddau allgyrsiol i Ddysgwyr. Nid yw Bwrdd yr Iaith bellach yn ariannu'r Mentrau i weithio gyda Dysgwyr a defnyddir arian grant Cyngor Sir y Fflint tuag at gostau craidd cyflogi a chynnal swyddfa. Mae'r Fenter yn hyrwyddo cymdeithas C3 i ddysgwyr profiadol a CD sydd ar gyfer dysgwyr nad ydynt eto yn rhugl. Rhydd hyn gyfle i Gymry Cymraeg ddangos eu cefnogaeth i ddysgwyr.

4.7 Sylwadau a thrafodaeth ar gyfathrebu

Mynegwyd amheuaeth ynglŷn â faint o impact oedd gweithgareddau'r Fenter yn ei gael ar sefyllfa'r iaith o fewn cymunedau Sir y Fflint. Nodwyd cyfarfod Grŵp Ffocws yn yr Wyddgrug i drafod sefydlu Canolfan Gymraeg fel enghraifft o gyfathrebu gwael lle nad oedd pobl allweddol o ran hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori. Cytunwyd fod bob amser lle i wella o ran cyfathrebu a bod yn rhaid i'r Fenter fel pob busnes fod yn agored i newidiadau a cheisio cryfhau negeseuon craidd yn

enwedig mewn sefyllfa lle bydd llai o adnoddau ar gael ar gyfer y Sector Gyhoeddus. Cytunwyd efallai nad yw yr Wyddgrug mor ganolog i waith y Fenter ac y bu ar un adeg a'n bod yn gweithio mewn cymunedau newydd i ni megis ardal Gronant ac yn cydweithio gyda sefydliadau cymunedol eraill fel Coleg Glannau Dyfrdwy yr Urdd a Mudiad Ysgolion Meithrin ac yn cynnal prosiectau o fewn yr Ysgolion Cymraeg.

4.8 Sylwadau a thrafodaeth ar ddarpariaeth Addysg Gymraeg

Nodwyd fod y galw am Addysg Gymraeg yn cynyddu ac nad oes bellach ddigon o le i ateb y galw yn yr Ysgolion Cymraeg presennol a bod angen pwysu ar yr Awdurdod i gynyddu'r ddarpariaeth. Yn ôl adroddiad diweddar byddai tua 30% o rieni Sir y Fflint am i'w plant gael addysg Gymraeg pe byddai ysgol Gymraeg o fewn cyrraedd cyfleus. Yn ardal Licswm mae'n bosib bydd un o'r ysgolion pentref yn cael eu cau, lle byddai potensial i ddatblygu Ysgol Gymraeg pe byddai'r ewylllys yno ar ran yr Awdurdod. Nodwyd fod diffyg Cymry Cymraeg ymhlith Swyddogion yr Awdurdod Addysg yn Sir y Fflint yn rhan o'r broblem. Tra gwelir twf mewn ardaloedd eraill nid oes dim datblygu wedi bod ar y ddarpariaeth yn Sir y Fflint.

4.9 Sylwadau a thrafodaeth ar sefydlu Canolfan Gymraeg yn ardal yr Wyddgrug

Mewn ymateb i gais am fwy o wybodaeth nac a gafwyd yn y Cyfarfod Ffocws ynglŷn â'r cynlluniau i sefydlu Canolfan Gymraeg yn ardal yr Wyddgrug eglurwyd mai'r Fforwm Sirol dan arweiniad y Fenter yw'r partneriaid sydd yn cydweithio ar y prosiect. Wedi mesur yr angen am adeilad lle gellir cynnig cyfleusterau ar gyfer darparwyr Gwersi Cymraeg, fel Popeth Cymraeg a Choleg Glannau Dyfrdwy, a lle i fudiadau gan gynnwys yr Urdd a MYM ddarparu gwasanaeth a chynnal cyfarfodydd ac ati bydd rhaid sicrhau bod cynllun busnes cadarn mewn lle fel y byddai'r ganolfan yn hyfyw a chynaliadwy yn y tymor hir. Fel rhan o'r gwaith ymchwil cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws, un ar gyfer pobl ifanc, un arall gyda rhieni ifanc, un gyda dysgwyr ac un cyffredinol ac yr y cyfan roedd yr adwaith yn bositif. Mae'r adroddiad terfynol bellach wedi ei dderbyn a fydd yn sail i drafod ac ymgynghori pellach ar sail gwybodaeth gadarn am seiliau ariannol ac adeilad penodol. Nododd Gwawr fod yr adroddiad ar gael o Swyddfa'r Fenter a'i bod hi yn hapus i wneud cyflwyniad ar y prif argymhellion i unrhyw fudiadau lleol. Roedd yna awydd i gynnal Cyfarfod Cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth gyffredinol ymysg y Cymry Di-gymraeg ond nodwyd bod hefyd angen rheoli disgwyliadau gan mae cychwyn yr ydym ar broses all fod yn eithaf hir gan fod hwn yn gynllun uchelgeisiol ac iddo oblygiadau ariannol sylweddol.

5. Derbyn Cyfrifon hyd at Fawrth 31^{ain} 2009

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi gan gwmni Hill and Roberts ac wedi eu gwirio gan Lisa ein Trysorydd. Rydym wedi llwyddo i ddenu mwy o incwm grant ac mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol. Mae'r costau hefyd ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol gan ein bod yn talu rhent am y swyddfa. Derbyniwyd y Fantolen a derbyniwyd argymhelliad ein bod yn ffeilio cofnodion ariannol ar-lein.

6 Ethol Bwrdd Cyfarwyddwyr

Mae Dylan wedi bod yn drysorydd ac yn aelod brwdfrydig o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr dros nifer o flynyddoedd a diolchodd Bryn iddo am ei holl waith ar ran y Fenter. Mae Lisa, ein trysorydd presennol, a Gwenno yn aelodau cymharol newydd o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. Cynigiwyd y dylid ail-ethol y cyfarwyddwyr presennol. Cynigiwyd dau enw arall sef Nesta Davies a Carl Renshaw, sydd wedi mynegi diddordeb mewn ymuno a Bwrdd y Cyfarwyddwyr ac sydd eisoes wedi mynychu cyfarfodydd ac fe dderbyniwyd y ddau enwebiad. Awgrymwyd y dylid hefyd chwilio am aelod dan 25 oed i gynrychioli buddiannau pobl ifanc. Cytunodd Bryn i barhau i weithredu fel Cadeirydd y Fenter a chytunwyd i ethol y swyddogion eraill o blith y cyfarwyddwyr yn eu cyfarfod nesaf.

7. Diolchodd Bryn i bawb am eu cefnogaeth cyn cyflwyno'r Dr Kathryn Jones, Ymgynghorydd Iaith, Cwmni Iaith Cyf a draddododd anerchiad diddorol ar effaith cynnig dewis iaith i gwsmeriaid mewn gwahanol sefyllfaoedd.